Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Public Health Wales statement on Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak

**This statement will be updated daily at 2pm**

*Updated: 2:00pm Wednesday 15 April*

Dr Giri Shankar, Incident Director for the Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak response at Public Health Wales, said:

"272 new cases have tested positive for Novel Coronavirus (COVID-19) in Wales, bringing the total number of confirmed cases to 6,118, although the true number of cases is likely to be higher.

"60 further deaths have been reported to us of people who had tested positive for Novel Coronavirus (COVID-19), taking the number of deaths in Wales to 463.

"We offer our condolences to families and friends affected, and we ask those reporting on the situation to respect patient confidentiality.

"We are aware that the number of deaths reported today is regrettably much higher than yesterday, however it is worth noting that day-to-day fluctuations are to be expected."

"All available data relating to Coronavirus in Wales is now available on a new user-friendly data dashboard, which is available on the Public Health Wales website.

"From tomorrow, confirmed case numbers and deaths will be available to view in the dashboard only, with the daily statement focusing on key public health information and updates.

"We are encouraging everyone to download the Covid-19 Symptom Tracker app, which has been supported by Welsh Government. The app allows users to log daily symptoms to help build a clearer picture of how the virus is affecting people. For more information, including how to download the app, visit covid.joinzoe.com.

"Public Health Wales is working to address the negative impact of COVID-19 on the social, mental and physical wellbeing of people in Wales. The new 'How are you doing?' campaign is now live and offering practical advice from phw.nhs.wales/howareyoudoing.

"The Deloitte testing facility at Cardiff City Stadium continues to operate to full capacity and provides a means for testing key workers.

"Public Health Wales is working in partnership with the Welsh Government and the Welsh Blood Service to explore the use of convalescent plasma from people who have recovered from Novel Coronavirus (COVID-19).

"Plasma from patients who have recovered from Coronavirus will contain antibodies that their immune systems have produced to fight the virus which can be transfused to patients whose immune systems are struggling to develop their own antibodies.

"The initiative is at an early stage and we will be inviting eligible individuals by direct approach only at this stage.

"Novel Coronavirus (COVID-19) is now circulating in every part of Wales. The single most important action

we can all take in fighting Coronavirus is to stay at home in order to protect the NHS, and save lives.

“We want to thank each and every person across Wales for doing their bit to help slow the spread of the virus.

“We know that staying at home can be hard especially when the weather is nice, but members of the public must adhere to social distancing rules about staying at home, and away from others, introduced by the UK and Welsh Government.  These rules are available on the Public Health Wales website.

“People no longer need to contact NHS 111 if they think they may have contracted Novel Coronavirus (COVID-19).  Information about the symptoms to look out for is available on the Public Health Wales website, or members of the public can use the NHS Wales symptom checker.

“Anyone with a suspected coronavirus illness should not go to a GP surgery, pharmacy or hospital.  They should only contact NHS 111 if they feel they cannot cope with their symptoms at home, their condition gets worse, or their symptoms do not get better after seven days.

“Only call 999 if you are experiencing a life-threatening emergency, do not call 999 just because you are on hold to 111.  We appreciate that 111 lines are busy, but you will get through after a wait.

“The public play a very important role in slowing the spread of infection. By strictly following the latest measures, you will protect yourself, protect the most vulnerable and help to reduce the pressure on NHS Wales and minimise the impact of the virus.”

**DATGANIAD CYMRAEG**

*Diweddariad: 2:00yp Dydd Mercher 15 Ebrill*

Dywedodd Dr Giri Shankar, Cyfarwyddwr Digwyddiad ar gyfer yr ymateb i'r achos o'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

“Mae 272 o achosion newydd wedi profi’n bositif am Coronafeirws Newydd (COVID-19) yng Nghymru, gan ddod â chyfanswm yr achosion a gadarnhawyd i 6,118 – er bod gwir nifer yr achosion yn debygol o fod yn uwch.

“Mae 60 person arall a gafodd brawf positif am Coronafeirws Newydd (COVID-19) wedi marw, sy’n dod â nifer y marwolaethau yng Nghymru i 463.

“Estynnwn ein cydymdeimlad i’r teuluoedd a'r ffrindiau sydd wedi'u heffeithio, a gofynnwn i'r rhai sy'n adrodd ar y sefyllfa barchu cyfrinachedd cleifion.

“Rydym yn ymwybodol bod nifer y marwolaethau a gofnodir heddiw yn uwch o lawer na ddoe, yn anffodus, ond mae’n werth nodi y disgwylir amrywiadau o ddydd i ddydd.”

“Mae'r holl ddata sydd ar gael sy'n ymwneud â Coronafeirws yng Nghymru bellach ar gael ar ddangosfwrdd data hawdd ei ddefnyddio, sydd ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

“O yfory ymlaen, bydd niferoedd yr achosion a’r marwolaethau wedi’u cadarnhau ar gael i’w gweld yn y dangosfwrdd yn unig a bydd y datganiad dyddiol yn canolbwyntio ar wybodaeth a diweddariadau allweddol ynghylch iechyd y cyhoedd.

“Rydym yn annog pawb i lawrlwytho’r ap Tracio Symptomau Covid-19, a dderbyniodd gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ap yn caniatáu i ddefnyddwyr logio symptomau’n ddyddiol i helpu i adeiladu darlun cliriach o sut mae'r feirws yn effeithio ar bobl. Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys sut i lawrlwytho'r ap, ewch i covid.joinzoe.com.
“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i fynd i’r afael ag effaith negyddol COVID-19 ar lesiant cymdeithasol, meddyliol a chorfforol poblogaeth Cymru. Mae’r ymgyrch newydd ‘Sut Wyt Ti?’ bellach yn fyw ac mae’n cynnig cyngor ymarferol trwy phw.nhs.wales/howareyoudoing.

“Mae cyfleuster profi Deloitte yn Stadiwm Dinas Caerdydd yn parhau i weithredu i’w lawn gapasiti ac yn

fodd i brofi gweithwyr allweddol.

“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwaed Cymru i archwilio’r broses o ddefnyddio plasma’r rhai sydd wedi gwella o Coronafeirws Newydd (COVID-19).

“Bydd plasma gan gleifion sydd wedi gwella o Coronafeirws yn cynnwys gwrthgyrff y mae eu systemau imiwnedd wedi eu creu i ymladd y feirws. Gellir trallwyso’r rhain i gleifion y mae eu systemau imiwnedd yn cael trafferthion yn datblygu eu gwrthgyrff eu hunain.

“Mae’r cynllun yn ei gyfnod cynnar a byddwn yn gwahodd unigolion cymwys trwy gysylltu â nhw’n uniongyrchol yn unig ar hyn o bryd.

“Mae Coronafeirws Newydd (COVID-19) bellach yn cylchredeg ym mhob rhan o Gymru. Y camau pwysicaf y gallwn ni i gyd eu cymryd wrth ymladd Coronafeirws yw aros gartref er mwyn amddiffyn y GIG ac achub bywydau.

“Rydyn ni am ddiolch i bawb ledled Cymru am chwarae eu rhan wrth helpu i arafu lledaeniad y feirws.”

“Rydym yn gwybod y gall aros gartref fod yn anodd, yn enwedig pan fo’r tywydd yn braf, ond rhaid i aelodau’r cyhoedd gadw at reolau cadw pellter cymdeithasol ynghylch aros gartref, ac i ffwrdd oddi wrth eraill, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.  Mae'r rheolau hyn ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

“Nid oes angen i bobl gysylltu ag NHS 111 mwyach os ydynt yn credu bod ganddynt Coronafeirws Newydd (COVID-19).  Mae gwybodaeth am y symptomau i gadw llygad amdanynt ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, neu gall aelodau'r cyhoedd ddefnyddio gwiriwr symptomau GIG Cymru.

“Ni ddylai unrhyw un yr amheuir bod ganddo/ganddi salwch coronafeirws fynd i bractis meddyg teulu, fferyllfa nac ysbyty.  Dim ond os yw'n teimlo na all ymdopi â'i symptomau gartref, fod ei gyflwr yn gwaethygu, neu os nad yw ei symptomau’n gwella ar ôl saith niwrnod y dylai gysylltu â NHS 111.

“Peidiwch â ffonio 999 oni bai eich bod yn profi argyfwng sy’n peryglu bywyd. Peidiwch â ffonio 999 dim ond oherwydd eich bod yn aros i 111 ateb eich galwad ffôn.  Rydym yn deall bod llinellau 111 yn brysur, ond bydd rhywun yn ateb eich galwad ar ôl i chi aros.

“Mae'r cyhoedd yn chwarae rhan bwysig iawn wrth arafu lledaeniad yr haint. Wrth ddilyn y mesurau diweddaraf yn llym, byddwch yn amddiffyn eich hun a’r rhai mwyaf agored i niwed, ac yn helpu i leihau’r pwysau ar GIG Cymru ac yn lleihau effaith y feirws.”